

## Tasg 1

# Mae bechgyn yn cael mwy o arian poded na merched!

1. Beth yw eich barn chi am y sefyllfa fod bechgyn yn cael mwy o arian poded na bechgyn? Ydy hyn yn deg?
  - Pam mae hyn yn digwydd, yn ôl yr arolwg?
2. Beth yw'r sefyllfa o ran arian poded yn eich dosbarth chi?
  - Gweithiwch allan beth yw cyfartaledd yr arian poded y mae bechgyn a merched yn eich dosbarth yn ei gael. Ydy bechgyn yn cael mwy o arian poded na merched? Os felly, pam, yn eich barn chi?
  - Beth yw canran y disgyblion sy'n cynilo ychydig o'u harian poded? Ydy hi'n fwy neu'n llai na'r ganran yn yr arolwg?
3. Beth yw ystyr gwahaniaethu?  
Nodwch enghreifftiau, os ydych chi'n teimlo bod gwahaniaethu yn erbyn bechgyn neu ferched yn digwydd
  - a) yn yr ysgol
  - b) yn eich cartref
  - c) mewn unrhyw sefyllfa arall rydych chi'n cymryd rhan ynddi.

Pa fathau eraill o wahaniaethu sydd, heblaw am wahaniaethu ar sail rhyw?

4. Oeddech chi'n gwybod am y bwlch rhwng cyflogau dynion a menywod?
  - Beth yw eich barn am hyn?
  - Edrychwch ar y we i gael gwybod rhagor, e.e. ydy hyn yn digwydd yn amlach mewn rhai meysydd?
5. Edrychwch ar y gwahaniaeth rhwng yr arian poded y mae plant 8–15 oed yn ei gael mewn gwahanol rannau o Brydain. Allwch chi feddwl am resymau dros y gwahaniaeth?
6. Os ydych chi'n cael arian poded, beth oedd eich oed chi pan ddechreuoch chi ei gael? Oes oed delfrydol ar gyfer dechrau cael arian poded?

7. Beth yw manteision/anfanteision cael arian poced o ran eich paratoi at y dyfodol? Nodwch nhw yn y tabl. Does dim gwahaniaeth os byddwch chi'n llenwi un ochr y tabl yn fwy na'r llall.

Manteision cael arian poced	Anfanteision cael arian poced

8. Mathemateg – atebwch y cwestiynau hyn, gan gofio bod 52 wythnos mewn blwyddyn:
- a) Yn ôl yr arolwg a'r llun, faint o arian poced y flwyddyn y mae bechgyn 8–11 oed yn ei gael yn fwy na merched?
- b) Faint o arian poced y flwyddyn y mae bechgyn 12–15 oed yn ei gael yn fwy na merched?
9. Mae'r ansoddeiriau â'r terfyniad -ol: 'blynyddol', 'tueddol' a 'tebygol' yn digwydd yn y darn. Llenwch y golofn ar y chwith â'r ansoddeiriau â'r terfyniad -ol sy'n dod o'r enwau neu'r berfenwau ar y dde. Nid mater o ychwanegu -ol at ddiwedd y gair fydd hi bob tro, cofiwch!

<b>Enwau / Berfenwau</b>		<b>Ansoddeiriau â'r terfyniad -ol</b>
i)	cyfrinach	
ii)	bwriad	
iii)	hunan	
iv)	marw	
v)	trwyn	
vi)	ysgub	
vii)	ymosod	
viii)	ffafr	
ix)	ffasiwn	
x)	tymor	
xi)	ymennydd	
xii)	cydweithredu	

Dewiswch chwe ansoddair â'r terfyniad -ol i'w rhoi mewn brawddegau newydd. Ceisiwch fod yn fentrus a dewiswch ambell un sy'n newydd neu'n anghyfarwydd i chi.